Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Ymgynghoriad cyhoeddus ar **ddefnyddio ein pwerau newydd sy'n deillio o'r pandemig coronafeirws ar ôl i gyfnod yr argyfwng ddod i ben**

# Cynnwys

1. **Gwybodaeth amdanom ni:**
   Cyflwyniad i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'n rôl fel rheoleiddiwr
2. **Cyflwyniad:**
   Esboniad o beth yw ystyr yr ymgynghoriad hwn, a pham rydym yn ei gynnal
3. **Cefndir:**
   Esboniad o sut a pham mae'r ffordd rydym yn gweithio wedi newid
4. **Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn**
5. **Cwestiynau**
6. **Amdanoch chi**
7. **Beth fyddwn yn ei wneud nesaf**
8. **Rhestr o dermau**
9. **Atodiad**

# 1. Amdanom ni

Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol dros 700,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydyn ni'n hyrwyddo safonau proffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydyn ni'n cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, byddwn yn ymchwilio i bryderon ynglŷn â nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydyn ni'n credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fydd angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydyn ni'n **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydyn ni'n creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfa pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau wrth weithio a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydyn ni hefyd yn cefnogi pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydyn ni'n gwneud ein hunain yn fwy amlwg er mwyn i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd ac ar ofal cymdeithasol. Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydyn ni'n defnyddio ein llais i siarad o blaid amgylchedd gwaith iach a chynhwysol i'n proffesiynau.

Mae **Ein strategaeth 2020-2025** yn amlinellu ein gwerthoedd. Mae ein gwerthoedd yn sail i bopeth a wnawn. Maen nhw'n llunio sut rydyn ni'n meddwl ac yn gweithredu. Rydyn ni'n sicrhau bod yn bob un o'r canlynol:

- teg
- caredig
- cydweithredol
- uchelgeisiol.

Rydyn ni hefyd yn ceisio gwneud gwelliannau a bod yn arloesol er mwyn darparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid a sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r cyhoedd o'r hyn a wnawn.

# 2. Cyflwyniad

Roedd y mesurau a gyflwynwyd gan y llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws ym mis Mawrth 2020 yn golygu nad oedd modd i ni barhau i weithio yn yr un modd mwyach. Er mwyn ein galluogi i barhau i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio, gan gynnwys ein gweithgareddau hanfodol i ddiogelu'r cyhoedd, a chadw nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn gweithio ar yr adeg dyngedfennol hon, cyflwynodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol rai rheolau[1] ('y rheolau'). Daeth y rhain i rym ar 31 Mawrth 2020 a rhoddwyd pwerau i ni wneud newidiadau i'n trefniadau gweithredu o ran addasrwydd i ymarfer a phrosesau cofrestru.

Oherwydd yr amgylchiadau lle cyflwynwyd y newidiadau, nid oedd modd i ni gynnal ymgynghoriad llawn â'n rhanddeiliaid. Fodd bynnag, fe wnaethom drafod y newidiadau gyda'r DHSC, ein grŵp llywio cymorth cyhoeddus a'r cyrff undebau llafur a chynrychioliadol perthnasol. Rydyn ni hefyd wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r undebau llafur a'r cyrff cynrychioliadol i drafod effaith y newidiadau i'n trefniadau gweithredu, a sut mae ein pwerau yn gweithio'n ymarferol.

I ddechrau, roedd y rheolau'n cynnwys 'cymal machlud' yn nodi y byddai'r darpariaethau'n dod i ben pan fyddai datganiad yn nodi bod yr argyfwng ar ben. Newidiodd DHSC y rheolau yn ddiweddarach oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y pandemig a'r risg o 'donnau' pellach. Daeth y gwelliannau[2] hyn i rym ar 31 Awst 2020 a chafodd y cymal machlud ei ddileu, sy'n golygu nad oes dyddiad gorffen ar y rheolau erbyn hyn.

Yn ein sesiwn Cyngor agored ym mis Gorffennaf 2020, fe wnaethom ymrwymo i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn erbyn 31 Mawrth 2021 ar y newidiadau a gyflwynwyd gan y rheolau a'r defnydd parhaus o'n pwerau. Fe wnaethom hefyd gytuno i beidio â defnyddio'r pwerau hyn y tu hwnt i ddiwedd mis Mawrth 2021 mewn cyfnod nad yw'n argyfwng, heb gynnal yr ymgynghoriad hwn.

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng 4 Tachwedd 2020 a 15 Ionawr 2021. Yna byddwn yn dadansoddi'r ymatebion ac yn paratoi adroddiad i'n Cyngor ei ystyried yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2021, ynghyd ag unrhyw wybodaeth a thystiolaeth berthnasol arall. Bydd ein Cyngor yn penderfynu a ddylem ddefnyddio ein pwerau sy'n deillio o'r pandemig coronafeirws y tu hwnt i 31 Mawrth 2021, ar ôl i unrhyw gyfnod brys ddod i ben.

Os bydd y cyfnod argyfwng yn para y tu hwnt i ddiwedd mis Mawrth 2021, byddwn yn parhau i ddefnyddio ein pwerau o dan y rheolau. Byddwn yn derbyn unrhyw adborth a gawn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn a gallwn newid ein prosesau lle bo'n briodol.

Nid yw'r ymgynghoriad yn ymdrin â'r prosesau cofrestru dros dro ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Y rheswm am hyn yw bod y prosesau hyn yn berthnasol i Ddeddf Coronafeirws 2020, ac nid y rheolau newydd ac nid yw'r newidiadau hyn yn barhaol gan y bydd y gofrestr dros dro yn cau pan gyhoeddir bod yr argyfwng drosodd.[3]

---

[1] Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Gweithdrefnau Argyfwng) (Diwygio) 2020 Gorchymyn y Cyngor 2020
[2] Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Coronafeirws) (Diwygio) (Rhif 2) - Gorchymyn y Cyngor 2020
[3] Cyflwynodd Deddf Coronafeirws 2020 ddarpariaeth newydd yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ar ffurf erthygl 9A, sy'n cwmpasu ein proses gofrestru dros dro.

# 3. Cefndir

Gwnaeth y rheolau a gyflwynwyd ar 31 Mawrth 2020 newidiadau yng nghyswllt dau brif faes ein gwaith:

i. Prosesau addasrwydd i ymarfer ac apeliadau cofrestru
ii. Ailddilysu a thalu ffioedd

Galluogodd y broses Addasrwydd i Ymarfer a'r newidiadau i apeliadau cofrestru'r canlynol:

- Dim ond cynnal gwrandawiadau a chyfarfodydd drwy gynhadledd fideo, cyswllt sain a dros y ffôn, yn hytrach nag wyneb yn wyneb
- Cyflwyno hysbysiadau o wrandawiad drwy e-bost yn hytrach na drwy'r post
- Y Cyngor i ymestyn penodiad unrhyw aelod o'r panel a oedd, ar 3 Mawrth 2020, yn gweithio yn ei ail dymor (gan y byddai llawer o aelodau ein panel wedi dod i ddiwedd eu hail dymor a byddai wedi bod yn anodd recriwtio a hyfforddi aelodau newydd ar gyfer y panel yn ystod yr argyfwng)
- Lleihau cworwm digwyddiad panel Addasrwydd i Ymarfer i ddau a hepgor y gofyniad i un aelod o'r panel Addasrwydd i Ymarfer fod yn gofrestrydd (roedd hyn yn bwysig gan ein bod yn ymwybodol o'r angen posibl i ryddhau cydweithwyr ar ein cofrestr o ddyletswyddau'r panel i flaenoriaethu eu gwaith yn y system iechyd a gofal)

Roedd y newidiadau i ail-ddilysu a thalu ffioedd fel a ganlyn:

- Pwerau i ystyried ymestyn unrhyw gyfnod o amser ar gyfer ail-ddilysu
- Pwerau i ymestyn yr amser i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio dalu eu ffi flynyddol

## Prosesau Addasrwydd i Ymarfer ac apeliadau cofrestru

### Cyfarfodydd a gwrandawiadau rhithwir

Roedd y mesurau a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws gan y llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig yn golygu nad oedd modd i ni barhau i gynnal cyfarfodydd a gwrandawiadau yn yr un modd. Cyn cyfnod yr argyfwng, byddai paneli cyfarfod yn cwrdd wyneb yn wyneb (nid oes neb arall yn mynd i'r cyfarfodydd; mae'r panel yn gwneud ei benderfyniad ar sail y papurau). Gellid cynnal gwrandawiadau gydag unigolion drwy gyswllt fideo neu dros y ffôn, ond nid oeddem wedi cael gwrandawiadau o'r blaen gyda phob parti'n bresennol yn rhithwir.

Mae'r newidiadau i'n rheolau wedi ein galluogi i barhau i gynnal cyfarfodydd a gwrandawiadau i ystyried pryderon a godwyd am nyrsys, bydwragedd neu gymdeithion nyrsio, a sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i'r cyhoedd. Rydyn ni hefyd wedi gallu caniatáu i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio a oedd â chyfyngiadau ymarfer ddychwelyd i'r gwaith cyn gynted â phosibl, lle'r oeddent yn gallu dangos arfer diogel.

I ddechrau, fe wnaethom gyfyngu cyfarfodydd a gwrandawiadau rhithwir i faterion oedd â risg uniongyrchol i'r cyhoedd. Hynny yw, ceisiadau ac adolygiadau o orchmynion dros dro, ac adolygiadau gorchmynion sylwedd.[4] Gan ein bod wedi dod yn fwy profiadol wrth gynnal digwyddiadau rhithwir, rydyn ni wedi ehangu'r rhain i gynnwys pob math o ddigwyddiadau addasrwydd i ymarfer a chofrestru.[5] Fe wnaethom ddechrau cynnal gwrandawiadau wyneb yn wyneb diogel rhag Covid yn ein canolfannau gwrandawiadau o 14 Medi 2020 ymlaen (er y gall rhai partïon barhau'n bresennol yn rhithiol). Fe wnaethom gyhoeddi **canllawiau** sy'n nodi rhestr heb fod yn hollgynhwysol o ffactorau y byddem yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cynnal gwrandawiad rhithwir, neu gyda rhai partïon yn bresennol mewn canolfan gwrandawiadau, neu bob un ohonynt.

Mae'r PSA hefyd wedi cyhoeddi **canllawiau** ar ddefnyddio gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn ystod y pandemig.

## Mynediad y cyhoedd i wrandawiadau

Mae Rheol 19 o Reolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) 2004 yn nodi bod yn rhaid i'n gwrandawiadau fod yn agored i'r cyhoedd ac eithrio mewn rhai amgylchiadau, megis pan fydd iechyd rhywun yn cael ei drafod. Pan wnaethom ddechrau cynnal gwrandawiadau rhithwir ym mis Mawrth 2020, nid oeddem yn caniatáu i arsylwyr fod yn bresennol yn y gwrandawiadau hyn oherwydd bod y rheolau'n diwygio Rheol 19, felly nid oeddent yn berthnasol i wrandawiadau oedd yn cael eu cynnal drwy adnodd fideo-gynadledda. Roedd hyn yn golygu y gallem ganolbwyntio ar sicrhau y gallai pob parti yn y gwrandawiad rhithwir gymryd rhan yn y trafodion. Fe wnaethom barhau i sicrhau bod ein prosesau'n dryloyw yn ystod y cyfnod hwn drwy sicrhau bod trawsgrifiadau o'r gwrandawiadau ar gael, a thrwy barhau i gyhoeddi penderfyniadau a rhesymau'r panel.

Daeth Rheol 19 yn ôl yn berthnasol ar 31 Awst 2020 gyda'r newidiadau a wnaeth DHSC i'r rheolau. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i wrandawiadau rhithwir a gwrandawiadau gyda rhai neu bob parti sy'n bresennol mewn canolfan gwrandawiadau fod yn agored i'r cyhoedd (ac eithrio mewn rhai amgylchiadau fel yr amlinellir uchod). Fodd bynnag, mae ein gallu i ganiatáu i arsylwyr yn ein canolfannau gwrandawiadau wedi'i gyfyngu gan yr angen i gadw pellter cymdeithasol. Rydyn ni wedi cyfyngu nifer yr arsylwyr yn ein gwrandawiadau rhithwir er mwyn sicrhau bod ein gwrandawiadau'n rhedeg yn esmwyth. Ar hyn o bryd rydyn ni'n cynnig mynediad sain i'n gwrandawiadau. Gall arsylwyr hefyd weld digwyddiadau ar sgrin mewn canolfan gwrandawiadau lle mae gennym fodd o hwyluso hyn. Gwnaethom y penderfyniad hwn i sicrhau cydbwysedd rhwng caniatáu i'r cyhoedd gael mynediad i'n gwrandawiadau â'r pryderon a godwyd ynghylch amddiffyn cyfranogwyr rhag y risg y gallai arsylwyr gofnodi neu gymryd cipluniau o'r trafodion.

Mae'r adran '**gwrandawiadau**' ar ein gwefan yn rhoi gwybodaeth am sut y gall aelodau o'r cyhoedd arsylwi gwrandawiad rhithwir. Rydyn ni'n nodi'n glir na ddylai arsylwyr gymryd recordiadau digidol, lluniau na chipluniau o'r gwrandawiad a rhaid i arsylwyr gytuno i hyn

---

[4] Mae'r eirfa yn esbonio beth yw gorchmynion dros dro ac adolygiadau o orchmynion sylwedd.

[5] Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys cyfarfodydd a gwrandawiadau sylwedd (gan gynnwys ailddechrau gwrandawiadau), achosion mynediad anghywir neu fynediad twyllodrus, apeliadau cofrestru, gwrandawiadau adfer a chyfarfodydd gweinyddol a gwrandawiadau sy'n helpu i fwrw ymlaen ag achos i'w ganlyniad parhaol.

wrth ofyn am wrandawiad.  Ni ddylai arsylwyr gyfathrebu ag unrhyw un o'r partïon yn ystod y gwrandawiad, neu gallai'r panel eu heithrio.

Mae nifer o reoleiddwyr wedi cymryd ymagwedd wahanol ac yn caniatáu i arsylwyr sy'n bresennol yn rhithiol weld ffrwd fideo o'r trafodion o'u safleoedd eu hunain.[6]  Mae o leiaf un rheoleiddiwr wedi penderfynu sefydlu oriel wylio yn ei ganolfan gwrandawiadau i ganiatáu i arsylwyr weld gwrandawiadau rhithiol ar sgrin yno.[7]  Wrth symud ymlaen, rydyn ni'n ystyried a ddylid mabwysiadu dull tebyg a chaniatáu mynediad gweledol o bell o safleoedd arsylwyr eu hunain yn ogystal â rhoi modd i arsylwyr fynd i'n canolfannau gwrandawiadau a gweld y trafodion ar sgrin. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ein gwrandawiadau mor agored a thryloyw â phosibl, yng ngoleuni ein hamcan i weithredu er budd y cyhoedd.

## Cyfansoddiad a phenodi aelodau'r panel

Fel rydyn ni wedi'i drafod gyda'r cyrff cynrychioliadol a'r undebau llafur perthnasol, nid ydym yn credu bod amgylchiadau y tu allan i'r cyfnod argyfwng lle byddem yn defnyddio'r pŵer i gynnal digwyddiad panel gyda dim ond dau banelwr neu lle nad oes gennym aelod o'r panel sy'n nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio.

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd cael profiad aelod o banel cofrestryddion a bod cael tri phanelwr yn caniatáu ystod ehangach o safbwyntiau a phrofiad i gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau. Rydyn ni'n credu bod y darpariaethau hyn yn sicrhau bod ein cyfarfodydd a'n gwrandawiadau yn deg ac mae'n debyg mai dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn y gallem gyfiawnhau llacio'r rheolau hyn y tu allan i argyfwng heb effeithio ar y ffaith nad oes aelodau o'r panel ar gael.

Mae'r pŵer i ymestyn penodiad unrhyw aelod o'r panel sy'n gwasanaethu am yr ail dymor wedi ein helpu yn ystod cyfnod yr argyfwng. Byddai wedi bod yn anodd recriwtio a hyfforddi aelodau newydd o'r panel yn ystod y cyfnod hwnnw a gallai hyn fod wedi arwain at brinder aelodau'r panel.  Roedd ein defnydd o'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu i'r cyfnod argyfwng ac ni fydd angen i ni ei ddefnyddio y tu allan i'r argyfwng. Felly, nid ydym yn gofyn cwestiwn ynglŷn â'r pŵer hwn.

## Anfon hysbysiadau o'n digwyddiadau

Rydyn ni'n anfon hysbysiadau at y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio fel eu bod yn gwybod pryd y cynhelir eu gwrandawiad neu, os yw'r achos yn symud ymlaen i gyfarfod, y dyddiad y caiff yr achos ei ystyried ar neu ar ôl hynny.  Byddwn yn anfon hysbysiad drwy e-bost diogel lle mae gennym gyfeiriad e-bost cymeradwy.  Mae cyfeiriad e-bost cymeradwy yn un a gofnodir ar ein cofrestr neu'n gyfeiriad y mae'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi'i ddefnyddio i gyfathrebu â ni yn y gorffennol, wedi dweud wrthym yn ystod gohebiaeth flaenorol neu wedi'i roi i ni dros y ffôn mewn ymateb i gais am fanylion cyswllt wedi'u diweddaru.  Os bydd trydydd parti fel cyflogwr yn darparu cyfeiriad e-bost i ni, ni fyddwn yn defnyddio hwn fel cyfeiriad e-bost cymeradwy nes bydd y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio yn cadarnhau ei fod yn gywir.  Os nad oes gennym gyfeiriad e-bost cymeradwy byddwn yn anfon yr hysbysiad

[6] Dyma'r dull gweithredu y mae'r rheoleiddwyr canlynol wedi'i fabwysiadu: y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor Optegol Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaeth Tribiwnlys y Proffesiynau Iechyd a Gofal a Gwaith Cymdeithasol Lloegr. Ymddengys o'u gwefan mai dyma'r dull a fabwysiadwyd hefyd gan Dribiwnlys Disgyblu'r Cyfreithwyr a Gwasanaeth Tribiwnlys a Dyfarnu'r Bar

[7] Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol

gyda gwsanaeth wedi'i gofnodi (recorded delivery) i'r cyfeiriad sydd ar ein cofrestr, fel yr oeddem yn arfer ei wneud cyn i'r rheol newid.

## Ailddilysu a thalu ffioedd

Mae ein pwerau o dan y rheolau yn ein galluogi i roi estyniad o unrhyw gyfnod o amser i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, i baratoi a chyflwyno cais ailddilysu a thalu eu ffi flynyddol. Cyn y newid hwn, roedd modd i ni roi estyniad ailddilysu o hyd at dri mis. Mae'r pŵer newydd hwn wedi ein galluogi i gefnogi ein nyrsys, ein bydwragedd a'n cymdeithion nyrsio i barhau i weithio fel gweithwyr proffesiynol cofrestredig lle mae angen mwy o amser arnynt, a'r rhai sy'n cefnogi eu ceisiadau, i fodloni ein gofynion adnewyddu oherwydd bod argyfwng y coronafeirws wedi effeithio arnynt.

Mae ailddilysu yn rhan allweddol o fywyd proffesiynol nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio: mae'n eu helpu i gynnal arferion diogel ac effeithlon drwy eu cefnogi i ddiweddaru eu gwybodaeth a datblygu sgiliau newydd.  Gwyddom hefyd fod y rhan fwyaf o'n nyrsys, ein bydwragedd a'n cymdeithion nyrsio eisiau ailddilysu a chyflwyno eu cais yn brydlon. Wrth symud ymlaen, hoffem felly ddefnyddio'r pŵer hwn mewn dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig mewn cyfnod heb fod yn argyfwng.

## Ein profiad o ddefnyddio ein pwerau o dan y rheolau

Mae ein profiad a'n gwybodaeth am wrandawiadau rhithwir yn datblygu. Rydyn ni'n parhau i adolygu'r newidiadau i'n prosesau fel y gallwn barhau i wella'r ffordd rydyn ni'n gweithio. Rydyn ni'n cynnal sgyrsiau parhaus gyda'r cyrff cynrychioliadol a'r undebau llafur perthnasol. Rydyn ni hefyd wedi gofyn am adborth gan y rhai sydd wedi cymryd rhan mewn gwrandawiadau rhithwir. Mae hyn i gyd wedi ein helpu i ddiweddaru a gwella ein canllawiau a'n prosesau a sicrhau bod ein gwrandawiadau rhithiol mor effeithiol â phosibl.

Rydyn ni wedi casglu rhywfaint o ddata ar gyfer gwrandawiadau cais am orchymyn dros dro rhithwir a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Mai ac wedi cymharu hyn â gwrandawiadau cais am orchymyn dros dro a gynhaliwyd ym mis Ionawr a Chwefror (a gynhaliwyd mewn canolfan gwrandawiadau, er y gallai rhai cofrestryddion fod wedi bod yn bresennol yn rhithwir). Gwnaethom hyn i geisio cael ymdeimlad o sut mae gwrandawiadau rhithwir yn cymharu â gwrandawiadau wyneb yn wyneb o ran nifer o ffactorau. Mae'r tablau data i'w gweld yn atodiad 1.

O gymharu'r tablau ar gyfer gwrandawiadau wyneb yn wyneb yn erbyn gwrandawiadau rhithwir, gallwn weld:

- Cynhaliwyd nifer debyg iawn o wrandawiadau dros y ddau gyfnod,
- Nid oedd unrhyw wahaniaeth amlwg yn nifer y gohiriadau a roddwyd,
- Nid oedd unrhyw wahaniaeth yn y tebygolrwydd y byddai gorchymyn dros dro yn cael ei roi,
- Bu gostyngiad bach yn nifer yr amodau dros dro o orchmynion ymarfer a roddwyd a chynnydd bach yn y gorchmynion atal dros dro a roddwyd yn y sampl gwrandawiadau rhithwir,
- Nid oedd unrhyw arwydd clir ei bod yn fwy tebygol y byddai nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn cael ei gynrychioli yn y naill fath o wrandawiad neu'r llall, ac felly ymddengys mai newidynnau eraill yw'r rheswm dros y newid hwn mewn lefelau,

Rhwng 23 Mawrth 2020 a 16 Hydref 2020 cynhaliwyd 1832 o wrandawiadau a chyfarfodydd rhithwir. Roedd 1368 o'r 1832 yn wrandawiadau. Yn ystod y cyfnod hwn rydyn ni wedi gweld manteision gwirioneddol o gynnal ein cyfarfodydd a'n gwrandawiadau rhithwir. Hoffem barhau i gynnal pob cyfarfod yn rhithwir, oni bai fod rheswm da i ni beidio â gwneud hynny. Mae cynnal gwrandawiadau rhithwir, neu gyda rhai neu bob parti yn mynd i'n canolfan gwrandawiadau, wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd ac yn golygu ein bod yn cynnal gwrandawiadau mewn mwy na dim ond prifddinasoedd pedair gwlad y DU. Mae nifer o fanteision i bob parti pan nad oes angen iddynt deithio nac aros oddi cartref, gan arbed amser teithio a chostau teithio a llety cysylltiedig.

## Profiadau partïon eraill

Rydyn ni'n gwybod bod nifer o wahanol safbwyntiau am wrandawiadau rhithwir. I rai pobl, mae cynnal gwrandawiadau rhithwir yn eu helpu i gymryd rhan yn y broses ac mae cydweithwyr yr NMC sy'n rhan o'n gwrandawiadau wedi nodi bod mwy o gofrestryddion yn cymryd rhan.[8] Yn unol â'n strategaeth, rydyn ni am ddefnyddio ffyrdd newydd o weithio lle maent yn cyflwyno manteision gwirioneddol i ni a'r rhai sy'n ymwneud â'n prosesau.

Rydyn ni'n deall nad yw pawb yn rhannu'r farn hon ac mae'n bwysig ein bod yn ystyried pob barn a phrofiad fel y gallwn benderfynu a allwn ddefnyddio ein pwerau ai peidio, a sut y gallem ddefnyddio ein pwerau unwaith y bydd y cyfnod argyfwng wedi dod i ben.

Gwyddom hefyd nad yw pawb yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio technoleg fideo-gynadledda, efallai na fydd ganddynt fynediad ato, neu efallai y bydd angen y cymorth y gellir ei gynnig drwy fynd i ganolfan gwrandawiadau yn bersonol arnynt. Mae ein cyrff cynrychioliadol wedi dweud bod angen i ni ystyried diogelu data ac felly mae angen cydbwyso hyn â'r gofyniad i gynnal ein gwrandawiadau yn gyhoeddus.

[8] Nid yw ein systemau yn casglu'r data ar bresenoldeb cofrestryddion.

# 4. Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad

Gallwch ymateb drwy'r ddolen ganlynol: www.nmc.org.uk/covid19-rules-consultation

Os na allwch gyflwyno eich ymateb gan ddefnyddio'r arolwg ar-lein,

cysylltwch â ni drwy **consultations@nmc-uk.org** am fformat arall.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Mae holl gwestiynau'r ymgynghoriad yn ddewisol ac eithrio'r cwestiynau 'Amdanoch chi'. Mae hyn yn dangos i ni a ydym wedi ymgysylltu ag ystod amrywiol ac eang o bobl. Bydd ymatebion ar ran sefydliadau yn cael eu dadansoddi ar wahân i ymatebion gan unigolion, felly mae'n bwysig ein bod yn gwybod ym mha gyd-destun yr ydych yn ymateb.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad byddwn yn gofyn am eich enw ac enw'r sefydliad. Fodd bynnag, gallwch ddewis aros yn ddienw os dymunwch.

Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn fyddwn ni ddim yn gofyn am eich enw. Felly ni fyddwch yn gallu newid eich ymatebion ar ôl i chi eu cyflwyno. Ni fyddwn yn gallu darparu cofnod o'ch ymatebion.

**Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng 4 Tachwedd 2020 a 15 Ionawr 2021 Ni fydd unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y cyfnod hwn yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.**

# 5. Cwestiynau

Mae'r adran hon yn cynnwys y cwestiynau rydyn ni'n eu gofyn yn yr ymgynghoriad hwn.

Mae ein profiad a'n gwybodaeth o ddefnyddio ein pwerau o dan y rheolau yn ystod cyfnod yr argyfwng yn parhau i ddatblygu. Rydym bellach yn ystyried a allwn ddefnyddio'r pwerau hyn ar ôl i'r cyfnod argyfwng ddod i ben, a sut mae gwneud hynny mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'n nodau strategol a'n gwerthoedd o fod yn garedig, yn deg, yn gydweithredol ac yn uchelgeisiol.

Bydd yr ymatebion a gawn i'r cwestiynau hyn yn llywio ein syniadau ac yn helpu ein cyngor i benderfynu a ddylem barhau i ddefnyddio'r pwerau hyn mewn cyfnod heb fod yn argyfwng, a sut.

Gall yr ymatebion a gawn hefyd lywio sut rydyn ni'n defnyddio ein pwerau yn ystod cyfnod yr argyfwng, ac a oes angen i ni wneud unrhyw newidiadau i'n prosesau presennol.

## Apêl a gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer a chofrestru

Hoffem barhau i gynnal gwrandawiadau rhithwir unwaith y daw cyfnod yr argyfwng i ben, ar yr amod y gallwn wneud hynny mewn ffordd sy'n ymarferol ac yn deg i bawb dan sylw

1. **Ydych chi'n meddwl bod unrhyw resymau pam na ddylem barhau i gynnal gwrandawiadau rhithwir, unwaith y daw cyfnod yr argyfwng i ben?**

   Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod

   Esboniwch eich ateb, os gwelwch yn dda.

### Mynediad i'r Cyhoedd

Mae ein rheolau'n nodi bod yn rhaid i'n gwrandawiadau fod yn agored i'r cyhoedd ac eithrio mewn rhai amgylchiadau, megis pan fydd iechyd rhywun yn cael ei drafod. Ein dull presennol o ymdrin â gwrandawiadau rhithwir yw caniatáu i arsylwyr gael mynediad sain o'u lleoliad preifat eu hunain. Nid ydym ar hyn o bryd yn caniatáu i arsylwyr gael mynediad gweledol o bell i'n gwrandawiadau rhithwir. Os yw arsylwyr am weld gwrandawiad rhithwir, gallant fynd i'n canolfan gwrandawiadau a byddwn yn arddangos y gwrandawiad rhithwir ar sgrin lle mae modd i ni wneud hynny.

2. **Sut ydych chi'n meddwl y dylai aelodau o'r cyhoedd gael mynediad i'n gwrandawiadau rhithwir?**

   Eglurwch y rheswm dros eich ateb.

### Cyfansoddiad paneli

Mae'r newidiadau i'n rheolau yn ein galluogi i gynnal cyfarfodydd a gwrandawiadau:

- pan nad oes gennym aelod o'r panel sy'n nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio
- pan mae gennym baneli o ddau aelod yn hytrach na thri

Nid ydym yn bwriadu defnyddio ein pŵer i gael panel heb nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, y tu hwnt i argyfwng cenedlaethol.

**3(a). Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn o weithredu?**

Ydw / Nac Ydw / Ddim yn gwybod

**3(b). Dywedwch wrthym os ydych chi'n meddwl bod unrhyw amgylchiadau eraill lle byddai'n rhesymol i ni gael panel heb aelod cofrestredig.**

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddem yn defnyddio ein pŵer i gael panel o ddau aelod (h.y. un aelod lleyg ac un nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio). Ein dull presennol o weithredu pan fydd panel wedi dechrau gwrando achos ac nad yw un aelod o'r panel yn gallu parhau (er enghraifft, oherwydd salwch neu analluogrwydd), byddwn yn parhau â'r gwrandawiad gydag aelod newydd o'r panel. Rydyn ni'n bwriadu parhau â'n dull presennol, ond mae gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn ynghylch a oes amgylchiadau lle gallem gael paneli gyda dau aelod.

**3(c). Yn eich barn chi, beth ddylai'r amgylchiadau eithriadol fod lle byddai gennym banel gyda dau aelod?**

### Anfon hysbysiadau o gyfarfodydd a gwrandawiadau

Mae'r newidiadau i'n rheolau yn ein galluogi i anfon hysbysiadau o'n gwrandawiadau a'n cyfarfodydd drwy e-bost.

**4. Ydych chi'n meddwl y dylem barhau i anfon hysbysiadau o'n gwrandawiadau a'n cyfarfodydd drwy e-bost diogel?**

Ydw / Nac ydw   Ddim yn gwybod

Eglurwch y rheswm dros eich ateb.

## Ailddilysu a thalu ffioedd

Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig yr ydym yn rhoi estyniadau i ailddilysu a thalu ffioedd. Er enghraifft, gall hyn ddigwydd lle bu digwyddiad annisgwyl fel salwch neu brofedigaeth ddiweddar sydd wedi atal nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio rhag cwblhau ei gais am ailddilysu neu dalu ei ffi yn brydlon.

**5. Ydych chi'n meddwl y dylem barhau i roi estyniadau i ailddilysu grantiau a thalu ffioedd mewn amgylchiadau cyfyngedig fel y rhai a amlinellir uchod?**

Ydw / Nac ydw   Ddim yn gwybod

Eglurwch y rheswm dros eich ateb.

**6. Os oes unrhyw beth arall yr hoffech wneud sylwadau arno o ran p'un ai a ddylem ddefnyddio ein pwerau o dan y rheolau ar ôl i'r cyfnod argyfwng ddod i ben ai peidio, gwnewch hynny yma gan nodi sut.**

**Dweud eich dweud www.nmc.org.uk/covid19-rules-consultation**

# 6. Amdanoch chi

Os ydych yn ymateb yn yr adran hon, **dyma** sut y byddwn yn defnyddio'r data y byddwch yn ei roi.

1. **Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad (dewiswch un yn unig)**
   - Unigolyn (ewch i'r adran **Ymateb fel unigolyn**)
   - Sefydliad (ewch i'r adran **Ymateb fel sefydliad**)
   - Arall (rhowch fanylion)

## Ymateb fel sefydliad

2. **A yw eich sefydliad yn cynrychioli barn swyddogol nyrsys, bydwragedd neu gymdeithion nyrsio a/neu'r cyhoedd sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig canlynol? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)**
   - Hŷn (e.e. 65 oed a hŷn)
   - Iau (e.e. dan 18 oed)
   - Anabl (gan gynnwys iechyd meddwl)
   - Lleiafrifoedd ethnig
   - Gwahaniaeth ar sail rhyw
   - Lesbiaidd, Hoyw a/neu Ddeurywiol
   - Amrywiaeth trawsryweddol
   - Beichiogrwydd/mamolaeth
   - Crefydd neu gred

3. **Dewiswch yr opsiynau sy'n disgrifio orau'r math o sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli (dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

   a. Adran neu gorff cyhoeddus y Llywodraeth
   b. Yr Awdurdod Lleol
   c. Corff rheoleiddio
   d. Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur
   e. Cyflogwr nyrsys, bydwragedd a/neu gymdeithion nyrsio
   f. Asiantaeth ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio
   g. Darparwr addysg
   h. Sefydliad defnyddwyr neu gleifion
   i. Arall (rhowch fanylion)

4. **A yw eich sefydliad yn cynrychioli/gweithio yn unrhyw un o'r gwledydd/ rhanbarthau isod (dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

- Lloegr
- Cymru
- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon
- Ledled y DU
- Ardal Economaidd Ewropeaidd
- Y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd

5. **Rhowch enw eich sefydliad**

## Ymateb fel unigolyn

6. **Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?**

- Nyrs (gan gynnwys nyrs SCPHN)
- Bydwraig (gan gynnwys bydwraig SCPHN)
- Nyrs a bydwraig (gan gynnwys nyrs a bydwraig SCPHN)
- Cydymaith nyrsio
- Myfyriwr unrhyw un o'r proffesiynau uchod
- Wedi ymddeol o unrhyw un o'r proffesiynau uchod
- Gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill
- Aelod o'r cyhoedd
- Cynrychiolydd grŵp/sefydliad eiriolaeth (ewch i gwestiwn 3)
- Addysgwr
- Cyflogwr
- Ymchwilydd
- Arall (rhowch fanylion)
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

7. **Ym mha wlad ydych chi'n preswylio ynddi (dewiswch un yn unig)**

- Cymru
- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Ardal Economaidd Ewropeaidd/Undeb Ewropeaidd
- Y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd/Undeb Ewropeaidd
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

8. **Ydych chi'n gweithio yn yr un wlad â lle rydych chi'n byw?**

- Ydw
- Nac ydw

8.1. **[Os nad ydych], dywedwch wrthym pa wlad rydych chi'n gweithio ynddi (dewiswch un yn unig)**

- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Lloegr
- Ardal Economaidd Ewropeaidd/Undeb Ewropeaidd
- Y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd/Undeb Ewropeaidd
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

## Monitro amrywiaeth

Llenwch yr arolwg hwn am eich cefndir

Rydyn ni wedi ymrwymo i drin pawb yn deg a chyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn cael deall yn well a ydym yn ymgysylltu ag ystod eang ac amrywiol o bobl. Yn yr adran hon rydym yn gofyn i chi am wybodaeth am eich cefndir. Yn benodol, rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon pan fyddwn yn dadansoddi ymatebion i wneud yn siŵr ein bod yn deall effaith ein cynigion ar grwpiau amrywiol. Er y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad, ni fyddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'ch adborth unigol.

Eich dewis chi yw rhoi'r wybodaeth hon i ni, ac ni fydd eich enw yn cael ei ddefnyddio pan fyddant yn cael eu cyhoeddi neu mewn adroddiadau.

## Amdanoch chi

9. **Faint yw eich oed?**

- Dan 20 oed
- Rhwng 21 a 30 oed
- Rhwng 31 a 40 oed
- Rhwng 41 a 50 oed
- Rhwng 51 a 55 oed
- Rhwng 56 a 60 oed
- Rhwng 61 a 65 oed
- Rhwng 66 a 70 oed
- Rhwng 71 a 75 oed
- Dros 75 oed
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

**10. Oes gennych chi unrhyw gyfrifoldebau gofalu? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- Dim
- Prif ofalwr am blentyn neu blant (dan 18 oed)
- Prif ofalwr am blentyn neu blant anabl
- Prif ofalwr am oedolyn anabl (18 oed a hŷn)
- Prif ofalwr am oedolyn (18 oed a hŷn)
- Prif ofalwr am berson neu bobl hŷn (65 oed a throsodd)
- Gofalwr eilaidd
- Mae'n well gennyf beidio â dweud
- Arall (rhowch fanylion)

**Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person fel rhywun anabl os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol, sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor (h.y. wedi para neu y disgwylir iddo bara o leiaf 12 mis) ar allu'r person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.**

**11. Oes gennych chi anabledd?**

- Oes
- Nac oes
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

**11.1 Os gwnaethoch ateb oes i'r cwestiwn uchod - dywedwch wrthym a oes unrhyw un o'r isod yn berthnasol i chi.**

- Dall neu golli golwg
- Byddar neu golli clyw
- Symudedd
- Deheurwydd llaw
- Anabledd dysgu
- Pryder iechyd meddwl
- Nam lleferydd
- Anabledd gwybyddol
- Nam arall - e.e. epilepsi, cyflyrau cardiofasgwlaidd, asthma, canser, anffurfiad i'r wyneb, anemia'r crymangelloedd, neu gyflyrau cynyddol fel clefyd niwronau motor.
- Mae'n well gennyf beidio â dweud
- Arall (rhowch fanylion)

**12. Beth yw eich grŵp ethnig?**

Dewiswch un.

### A: Gwyn

- Prydeinig, Seisnig, Gwyddelig (Gogledd Iwerddon), Albanaidd neu Gymreig
- Sipsi neu deithiwr
- Gwyddelig
- Unrhyw gefndir gwyn arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

### B: Grŵp ethnig cymysg neu luosog

- Gwyn a Du Caribïaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

### C: Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Bangladeshaidd
- Tsieineaidd
- Ffilipiniad/Ffilipino
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

### D: Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu ddu Prydeinig

- Caribïaidd
- Affricanaidd
- Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

### E: Grŵp ethnig arall

- Arab
- Unrhyw grŵp ethnig arall, nodwch os gwelwch yn dda

### F: Mae’n well gennyf beidio â dweud

**13. Beth yw eich rhyw?**

- Menyw
- Dyn
- Arall neu rhowch ddisgrifiad
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

**14. Ydy eich hunaniaeth o ran rhywedd yn cyfateb i'r rhywedd a gofrestrwyd adeg eich geni (neu cyn pen 6 wythnos)?**

- Ydy
- Nad ydw
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

**15. Sut byddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- Prydeinig
- English
- Sipsi neu deithiwr
- Gwyddel o Ogledd Iwerddon
- Albanaidd
- Cymreig
- Arall (rhowch fanylion)
- Mae'n well gennyf beidio â dweud

**16. Beth yw eich crefydd neu gred?**

- Dim crefydd
- Cristion
- Bwdhydd
- Hindŵ
- Iddew
- Mwslim
- Sikh
- Mae'n well gennyf beidio â dweud
- Unrhyw grefydd arall, nodwch os gwelwch yn dda

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol orau?**

- Deurywiol
- Hoyw neu lesbiaidd
- Heterorywiol neu strêt
- Mae'n well gennyf beidio â dweud
- Arall (rhowch fanylion)

# 7. Beth fyddwn yn ei wneud nesaf

Bydd ein hymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 15 Ionawr 2021. Byddwn wedyn yn ystyried yr ymatebion ac yn penderfynu pa gamau sy'n briodol. Byddwn yn drafftio adroddiad ar yr Ymgynghoriad, a fydd yn mynd i'r afael â'r themâu a godwyd ac unrhyw bwyntiau allweddol, a phapur i'n Cyngor ei ystyried wrth benderfynu ar sut y caiff ein rheolau newydd eu defnyddio y tu hwnt i argyfwng.

Nid ydym yn gwybod beth fydd y sefyllfa ym mis Mawrth 2021 a thu hwnt. Efallai y byddwn mewn argyfwng o hyd ac mae angen i ni barhau i ddefnyddio ein holl bwerau tra bo'r argyfwng yn parhau. Er mai ein cynllun yw cael ein Cyngor i ystyried canlyniad yr ymgynghoriad ochr yn ochr â gwybodaeth berthnasol arall yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2021, rydyn ni'n cydnabod y gallai'r argyfwng a'r amgylchiadau o'i gwmpas achosi oedi o ran pryd y bydd y Cyngor yn gallu ystyried defnyddio'r rheolau y tu hwnt i argyfwng.

Rydyn ni wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ('EQIA') ac asesiad o'r effaith ar ddiogelu data ('DPIA') ar y newidiadau a gyflwynwyd gan y pwerau newydd. Gwyddom y gall y rhain effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd ac rydyn ni'n awyddus i sicrhau bod gennym gymaint o wybodaeth â phosibl fel y gallwn weld sut mae defnyddio'r pwerau hyn yn effeithio ar grwpiau penodol – lle mae hyn yn gwneud ymgysylltu'n haws a lle mae'n ei wneud yn anoddach. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a nodir yn yr ymgynghoriad i gyfrannu at ein EQIA a'n DPIA ac i lywio ein defnydd parhaus o'r pwerau yn ystod yr argyfwng a thu hwnt.

# 8. Geirfa

**Cyngor**
Y Cyngor yw ein corff llywodraethu. Mae'n pennu ein cyfeiriad strategol, yn gwneud penderfyniadau allweddol ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd.

**Tystiolaeth**
Bydd y panel yn clywed tystiolaeth gan dystion sy'n mynd i'r gwrandawiad a bydd hefyd yn darllen dogfennau. Mae hyn yn rhan o'r dystiolaeth y bydd yn ei hystyried. Gall y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio ddewis dod â thystion gyda nhw i gefnogi eu hachos. Gall y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio hefyd gyflwyno eu tystiolaeth eu hunain i'r panel.

**Addasrwydd i ymarfer**
Bod â'r sgiliau, yr wybodaeth, yr iechyd da a'r cymeriad da i weithio fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn ddiogel ac yn effeithiol

**Pwyllgor addasrwydd i ymarfer**
Ar y cam pan fo achos wedi'i gyfeirio am wrandawiad neu gyfarfod, bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn ystyried unrhyw achos ar gyfer panel addasrwydd i ymarfer.

**Panel addasrwydd i ymarfer**
Mae hyn yn cynnwys ein Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer a'n Pwyllgor Ymchwilio. Mae'r ddau yn cynnwys pobl annibynnol a benodir i fod yn aelodau panel ar y pwyllgorau perthnasol.

**Gwrandawiad:** pan fydd panel y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn cyfarfod i wrando achos dadleuol am addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer. Mae tri cham i'r gwrandawiad: y cam ffeithiau, y cam amhariad, a'r cam sancsiynau. Mae angen i'r panel wneud penderfyniad cwbl resymegol ar bob cam. Mae gan y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio yr hawl i fod yn bresennol. Eglurir ein hachos gan gyflwynydd achos, ac mae gan y panel asesydd cyfreithiol i'w helpu gyda phwyntiau cyfreithiol.

**Amhariad**
Rydyn ni'n dweud bod rhywun wedi'i amharu os nad ydym yn credu ei fod yn addas i ymarfer ar hyn o bryd. Mae gwahanol gategorïau lle gall rhywun fod wedi'i amharu, megis camymddwyn, diffyg cymhwysedd neu iechyd.

**Gorchymyn dros dro**
Byddwn yn gofyn am orchymyn dros dro yn ystod ein hymchwiliad os ydym yn credu bod nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn risg i'r cyhoedd, neu ei hun. Gall panel benderfynu gwahardd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio rhag ymarfer dros dro, drwy wneud cais am orchymyn ymarfer amodau dros dro. Neu os yw'n credu bod y risg yn ddifrifol, bydd yn eu hatal rhag ymarfer nes i'r ymchwiliad ddod i ben. Gelwir hyn yn orchymyn atal dros dro.

### Pwyllgor Ymchwilio

Bydd y Pwyllgor Ymchwilio yn ystyried unrhyw achos y mae angen iddo fynd gerbon panel addasrwydd i ymarfer yn ystod camau cychwynnol proses atgyfeirio cyn i achos gael ei gyfeirio ar gyfer gwrandawiad neu gyfarfod.

### Cyfarfod

Pan fydd panel yn penderfynu achos yn breifat gan ddefnyddio'r dogfennau yn yr achos. Nid yw'r nyrs, y fydwraig na'r cydymaith nyrsio yn bresennol ond gall anfon cyflwyniadau atom ymlaen llaw. Byddwn bob amser yn cyhoeddi'r canlyniad ar ein gwefan. Oni bai bod yr achos yn ymwneud ag iechyd y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio, byddwn fel arfer yn cyhoeddi rhesymau'r panel hefyd.

### Hysbysiad o gyfarfod neu wrandawiad

Rydyn ni'n anfon hysbysiadau at ein cofrestrwyddion fel eu bod yn gwybod pryd y cynhelir eu gwrandawiad neu, os yw'r achos yn mynd rhagddo i gyfarfod, y dyddiad y caiff yr achos ei ystyried ar neu ar ôl hynny.

### Aelod o'r panel

Mae aelodau'r panel yn bobl annibynnol a benodir fel y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ein cyfarfodydd a'n gwrandawiadau.

### Cyfarfod rhagarweiniol

Cyfarfod gerbron aelod o'r panel sydd wedi'i benodi'n Gadeirydd lle gall wneud penderfyniadau ynghylch sut y dylai achos fynd rhagddo.

### Paneli apeliadau cofrestru

Mae aelodau'r panel a benodwyd i'n panel Apeliadau Cofrestriadau yn ystyried apeliadau a wneir gan bobl nad ydym wedi caniatáu iddynt fynd ar ein cofrestr.

### Cofrestrydd

Nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru â ni.

### Ailddilysu

Y broses y mae angen i bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio ei dilyn er mwyn cynnal eu cofrestriad gyda ni.

### Sancsiwn

Cyfyngiad y mae panel yn ei roi ar gofrestriad rhywun. Gallai hyn fod yn rhybudd, amodau ymarfer, atal dros dro neu orchymyn diswyddo.

### Adolygiad o orchymyn sylwedd

Os bydd panel yn atal nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, neu'n gosod cyfyngiadau ar ymarfer, bydd hyn am gyfnod penodol o amser. Cyn i'r amser hwn ddod i ben, rhaid i banel newydd benderfynu a yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi mynd i'r afael â'i fethiannau. Gall benderfynu gadael i'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio ddychwelyd i ymarfer, neu ymestyn neu gynyddu'r sancsiwn.

### Gorchymyn atal dros dro

Gall panel benderfynu mai'r ffordd orau o ddiogelu'r cyhoedd yw atal y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio rhag ymarfer am gyfnod (hyd at 12 mis). Cyn i'r amser ddod i ben efallai y byddwn yn adolygu'r gorchymyn i weld a oes angen iddo barhau.

### Cyfarfodydd a gwrandawiadau rhithwir

Digwyddiad lle mae pob parti yn bresennol dros y ffôn, cyswllt sain neu drwy gyfleusterau fideo-gynadledda.

### Tyst

Rhywun sy'n rhoi tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar ar fater y mae'n gyfarwydd ag ef.

# 9. Atodiad

### Atodiad 1

Tablau data ar wrandawiadau rhithwir a chorfforol ar gyfer mis Ionawr a mis Chwefror o ran gwrandawiadau corfforol a mis Ebrill a Mai o ran gwrandawiadau rhithwir.

| Canlyniadau gwrandawiadau | Gwrandawiad corfforol | % Cyfanswm | Gwrandawiadau rhithwir | % Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| IO wedi'i osod | 72 | 80 | 63 | 78 |
| Dim angen IO | 11 | 12 | 13 | 16 |
| Wedi'i ohirio | 6 | 7 | 3 | 4 |
| Gwag | 1 | 1 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **90** | | **81** | |

*Ffigur 1: Canlyniadau gwrandawiadau IO ar gyfer gwrandawiadau corfforol a rhithwir*

| Canlyniadau gwrandawiadau | Gwrandawiad corfforol | % Cyfanswm | Gwrandawiadau rhithwir | % Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Amodau dros dro gorchymyn ymarfer | 44 | 49 | 33 | 41 |
| Gorchymyn atal dros dro | 28 | 31 | 30 | 37 |
| Dim rhaid cael gorchymyn dros dro | 11 | 12 | 13 | 16 |
| Wedi'i ohirio | 6 | 7 | 3 | 4 |
| Gwag | 1 | 1 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **90** | | **81** | |

Figure 2: *Canlyniadau gwrandawiadau IO ar gyfer gwrandawiadau corfforol a rhithwir*

| Mis | Cyfanswm | Cynrychiolaeth | Cyfanswm | % Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 44 | Wedi'i gynrychioli | 28 | 64 |
| | | Heb ei gynrychioli | 16 | 36 |
| Chwefror | 46 | Wedi'i gynrychioli | 24 | 52 |
| | | Heb ei gynrychioli | 22 | 48 |
| Ebrill | 44 | Wedi'i gynrychioli | 31 | 70 |
| | | Heb ei gynrychioli | 13 | 30 |
| Mai | 43 | Wedi'i gynrychioli | 24 | 56 |
| | | Heb ei gynrychioli | 19 | 44 |

*Ffigur 3: Gwrandawiadau IO gan gynrychiolaeth cofrestryddion ar gyfer mis Ionawr a Chwefror ac Ebrill a Mai 2020.*

**Physical Hearings** **Virtual Hearings**